# PECYN GWIRFODDOLWR

## Hyfforddwr Gwirfoddol Cymunedau Bywiog

### Y Tîm:

Mae ein tîm Cymunedau Bywiog yn cynnal amrywiaeth o sesiynau chwaraeon a digwyddiadau yn y Gymuned drwy gydol y flwyddyn. Mae gennym dîm profiadol o Hyfforddwyr sy'n darparu gweithgareddau chwaraeon hwyliog ac amrywiol bob dydd, drwy gydol y flwyddyn. Gall hyn amrywio o sesiynau chwaraeon cymunedol wythnosol, gwyliau chwaraeon, gweithgareddau gwyliau megis diwrnodau hwyl i'r teulu a llawer mwy! Cynhelir y sesiynau hyn ar adegau gwahanol, ar hyd a lled y Sir.

### Tasgau Allweddol:

Mae'r tasgau arferol y gofynnir i chi eu gwneud wedi'u rhestru isod, a chewch hyfforddiant lawn ar bob un:

- **Helpu i gefnogi clybiau neu weithgareddau chwaraeon wythnosol a gwyliau cymunedol.**
- **Helpu gyda'n gweithgareddau gwyliau megis digwyddiadau hwyl i'r teulu cymunedol neu wersylloedd aml-chwaraeon.**
- **Helpu i osod pethau i fyny cyn y sesiwn, yn ystod y sesiwn a chlirio ar ei hôl.**
- **Cymryd cofrestrau a monitro'r ardaloedd 'chwarae rhydd'.**
- **Ymweld ag ysgolion lleol i gefnogi hyfforddwyr gyda Bikeability (gellir cynnig mwy o hyfforddiant)**

### Gofynion:

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol, rydym yn chwilio am o bobl gyfeillgar, hawdd mynd atynt sy'n caru chwaraeon. Os oes gennych chi sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu rhagorol ac yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm, byddwch yn ffitio i mewn yn syth. Oherwydd natur y swydd mae'n rhaid i'n holl wirfoddolwyr gytuno i gael gwiriad DBS gan DLL.

### Oriau:

Bydd yr oriau'n amrywio. Rydym yn gwahodd ein holl wirfoddolwyr i roi gwybod pa bryd y byddant ar gael ychydig wythnosau ymlaen llaw er mwyn gallu eu clustnodi i'r sesiynau sydd fwyaf addas iddyn nhw. Mae hanner diwrnod a diwrnod llawn yn bosibl, yn ogystal â blociau fesul awr.

### Beth fydd yn digwydd nesaf?:

Os oes gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn, ewch i'n gwefan www.denbighshireleisure.co.ukcy/gwirfoddoli/ i lenwi ein ffurflen fer. Ar ôl i chi wneud hynny byddwn yn eich gwahodd i ddod am sgwrs am y rôl.

***This document is also available in English***

hamdden@hamddensirddinbych.co.uk
Denbighshireleisure.co.uk